



Canolfan  
Llywodraethiant Cymru  
Wales Governance  
Centre



Fforwm Cymdeithas Sifil  
Cymru ar Brexit  
Wales Civil Society  
Forum on Brexit

# Paratoi ar gyfer Diwedd y Cyfnod Trawsnewid Canllaw ar Gyfer Sefydliadau Trydedd Sector yng Nghymru

*Rhagfyr 2020*

## Tabl Cynnwys

### CRYNODEB GWEITHREDOL

#### CYFLWYNIAD

#### 1 - Y CYFNOD RHAGARWEINIOL HYD AT RAGFYR 31 2020

[1.1 Cytundeb neu Beidio?](#)

[1.2 Dilyniant Cyfreithiol](#)

[1.3 Sicrhau bod eich sefydliad yn barod o safbwynt diogelu data](#)

[1.4 Cadw ymwybyddiaeth o newidiadau i reolau caffael yn y dyfodol](#)

[1.5 Rheolau Treth a TAW](#)

[1.6 Codi Ymwybyddiaeth o Gynllun Preswyllo'r UE ymhlith staff defnyddwyr y gwasanaeth](#)

[1.7 Yn gyflogwyr - cadw ymwybyddiaeth o'r system mewnfudo yn dilyn Brexit](#)

#### 2 - TU HWNT I'R CYFNOD TRAWSNEWID - RHAI FFLACHBWYNTIAU ALLWEDDOL

[2.1 Cyfranogiad yn rhaglenni'r UE yn y dyfodol](#)

[2.2 Perthnasau rhwng Cymdeithas Sifil Cymru a'r UE yn y dyfodol](#)

[2.3 Cronfa Ffyniant Cyffredin y DG ac Effaith Economaidd Brexit a Covid-19](#)

[2.4 Cynllunio eiriolaeth ar gyfer cyd-destun ôl-Brexit o ganoli a straen ar ddatganoli](#)

## Crynodeb Gweithredol

- Mae'r gwahaniaeth rhwng senario cytundeb neu ddiffyg cytundeb lawer yn llai y tro hwn. O ganlyniad, mae paratodau yn debygol o fod yn berthnasol y naill ffordd neu'r llall. Fodd bynnag, fe allai methiant i sicrhau cytundeb ddyfnhau'r effaith mewn meysydd fel amrywiaeth y bwyd sydd ar gael yn y tymor byr (er nad oes disgwyl prinder bwyd), cynnydd prisoedd a chydweithrediad diogelwch yn y dyfodol.
- Mae disgwyl i ddilyniant cyfreithiol barhau oherwydd y Cytundeb Gadael a Deddf (Ymadael) yr Undeb Ewropeaidd 2018. Fodd bynnag, anogir sefydliadau i fod yn ystyriol o newidiadau sylweddol posib i bolisi drwy gyfrwng deddfwriaeth eilradd. Mae [project SIFT](#) yn olrhain hyn.
- Caiff sefydliadau eu hannog i wirio a oes angen iddyn nhw gymryd unrhyw gamau ym maes diogelu data, gan gofio efallai na fydd penderfyniad digonolrwydd ar ran yr UE yn cael ei gyhoeddi cyn Rhagfyr 31, 2020.
- Disgwylir rhai newidiadau bach wrth gaffael - efallai bydd sefydliadau yn dymuno ymglyfarwyddo eu hunain gyda'r rhain drwy ddarllen cyfarwyddyd Llywodraeth y DG. Bydd gwasanaeth e-hysbysu newydd y DG yn dechrau o'r enw Dod o 'Hyd i Dendr / Find A Tender' a bydd defnydd o Gwerthwch i Gymru yn parhau fel arfer.
- Bydd rhaid i ddinasyddion yr UE, AEE, y Swistir ac aelodau eu teuluoedd agos, wneud cais i'r Cynllun Preswyllo Ewropeaidd er mwyn parhau i fyw yn gyfreithlon yn y DG. Os nad ydyn nhw wedi eisoes, mae'n bosib bydd sefydliadau eisiau gwirio gyda staff ac ystyried [cyfeirio](#) unrhyw ddefnyddwyr bregus o'r gwasanaeth i sefydliadau a all gynnig cymorth gyda cheisiadau.
- O Ionawr 1 2020, bydd eisiau i gyflogwyr fod yn ymwybodol y bydd rheolau mewnfudo'r DG yn newid i ['system mewnfudo newydd syn seiliedig ar bwyntiau](#). Gall hefyd fod yn werth edrych ar ymchwil ar effaith cymdeithasol posib y newidiadau hyn ar Gymru. Bydd angen i aelodau staff sydd angen teithio'n achlysurol i'r UE i wirio'r rheolau ar gyfer teithio i wledydd penodol. Bydd teithio i Weriniaeth Iwerddon yn parhau i gael ei lywodraethu gan yr Ardal Teithio Gyffredin.
- Tu hwnt i 2020 - bydd y dirwedd lle mae'r drydedd sector yn gweithredu oddi fewn iddi yng Nghymru yn gweld sawl fflachbwynt mewn cyd-destun ôl-Brexit nodedig. Bydd datblygiadau parhaus Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG a diwygiadau i adolygiad barnwrol a'r Ddeddf Hawliau Dynol yn digwydd yn erbyn cefnlen o hyrddiadau diweddar i gyfeiriad canoli a heriau deddfwriaethol i ddatganoli.
- Er hynny, bydd yna gyfleoedd hefyd i ddylanwadu. Yn unol â'r trafodaethau parhaus tebygol rhwng y DG a'r UE ynglŷn â materion lle na chafwyd amser digonol i negodi cyn diwedd y cyfnod trawsnewid. Gallai'r rhain fod yn heriol os bydd unrhyw fethiant i sicrhau cytundeb masnach yn peri straen i'r berthynas rhwng y DG a'r UE.

## Cyflwyniad

Fe wnaeth y DG adael yr Undeb Ewropeaidd ar Ionawr 31, 2020 ond bu mewn cyfnod trawsnewid fydd yn para hyd at 11 PM ar Ragfyr 31, 2020. O ganlyniad, ychydig iawn sydd wedi newid yn y cyfamser er mwyn rhoi amser i baratoi i'n busnesau, sefydliadau a dinasyddion.

Lluniwyd y cyfarwyddyd hwn er mwyn cynnig adnoddau pellach i fudiadau Cymdeithas sifil i helpu ystyried goblygiadau pellach yn y cyfnod sy'n arwain at, a thu hwnt diwedd y cyfnod trawsnewid hwn.

Mae Llywodraethau Cymru a'r DG wedi sicrhau bod adnoddau ar gael - sef:

- [Paratoi Cymru](#) - sydd yn cynnwys tudalennau ar y trydydd sector a chydlyniant cymdeithasol.
- [Tudalen Trawsnewid Llywodraeth y DG](#) - sydd yn arf seiliedig ar holi ac ateb

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi rhyddhau [Cynllun Gwaith Diwedd Trawsnewid](#) sydd yn trafod rhai o'r heriau allweddol sydd yn cwmpasu diwedd y cyfnod trawsnewid. Mae hyn yn cynnwys, deddfwriaeth Brexit, cymryd lle ariannu rhanbarthol, rhaglenni'r UE, Y Cynllun Preswyllo Ewropeaidd, tarfu posib ar fewnforion ac allforion a threfniadau trafndiaeth.

Ceir tudalennau pellach ar wefan Llywodraeth y DG ar gyfer rhai sectorau penodol:

- [Sectorau Cymdeithas Sifil](#)
- [Sectorau Celf, Diwylliant a Threftadaeth](#)
- [Sectorau'r Celfyddydau Diwylliannol](#)
- [Sectorau Chwaraeon ac Adloniant](#)
- Neu'n fwy cyffredinol: [Sectorau'r DCMS](#).

Efallai na fydd gan y tudalennau hyn yr holl atebion ond gallant fod yn fan cychwyn defnyddiol. Er enghraifft, dydyn nhw ddim yn cyfeirio at effeithiau anuniongyrchol posib sy'n deillio er enghraifft o unrhyw gynnydd posib mewn prisiau bwyd a goblygiadau lles ar gyfer dinasyddion bregus yr UE.

## **1 - Y CYFNOD RHAGARWEINIOL HYD AT RAGFYR 31, 2020**

### **1.1 Cytundeb neu Beidio?**

Ar adeg ysgrifennu hwn, wyddon ni ddim eto a fydd y DG yn gorffen y cyfnod trawsnewid gyda chytundeb neu beidio ar ddyfodol ei pherthynas gyda'r UE.

**Mae'r bwlch rhwng y ddwy senario hyn nawr lawer yn llai gan fod y cytundeb a geisir amdani yn un 'tenau'. O ganlyniad i hyn, efallai bydd sefydliadau a busnesau yn awyddus i feddwl drwy effaith posib hyn, waeth pa ddeiliant bynnag a ddaw o'r trafodaethau.**

Ni fydd unrhyw gytundeb yn debygol o ymdrin â mwy na thollau masnach a mynediad heb gwtâu ar gyfer nwyddau. Golyga hyn y daw rheolau ffiniau newydd i rym p'un a geir cytundeb neu beidio. Er y byddai sicrhau cytundeb yn lleihau'r baich - **dylid disgwyl rhywfaint o aflonyddwch a dylai busnesau a sefydliadau baratoi ar gyfer hyn**. O ddweud hynny, mae gadael heb gytundeb yn cyflwyno rhai heriau penodol, er enghraifft:

- Bydd aflonyddu trymach yn debygol o fod ar gludiad heolydd.
- Gallai agweddau eraill o'r berthynas yn y dyfodol a allai fod yn ddarostyngedig i drafodaethau pellach fel [Cydweithio diogelwch](#) a Rhaglenni'r UE fod yn fwy anodd.
- Mae'n bosib na fyddai gweithrediadau eraill sydd eu hangen o'r UE fel darpariaeth digonolrwydd ar gyfer diogelu data a chywerthedd ym maes gwasanaethau ariannol yr un mor hawdd i'w cael.
- Does dim disgwyl prinder bwyd, ond fe allai fod llai o amrywiaeth ar gael am beth amser ac fe allai rhai prisiau [gynyddu](#).

Ynglŷn â Covid-19 - Mae'r Sefydliad Dros Lywodraeth yn egluro [yma](#) y gallai oedi ar y ffin effeithio ar gyflenwi brechiad Covid-19 gan y bydd cynnyrch Pfizer/BioNTech yn cael ei fewnforio o Wlad Belg.

**Am fwy o wybodaeth gweler:**

- [Adroddiad](#) Sefydliad y Llywodraeth sydd yn dadansoddi lefel parodrwydd y Llywodraeth a busnes ar gyfer diwedd y cyfnod trawsnewid.
- Am ddadansoddiad mwy manwl o oblygiadau senario gadael heb gytundeb yn benodol - gweler [yr adroddiad hwn](#) gan y DG mewn Ewrop Sydd yn Newid (UK in a Changing Europe).

## **1.2 Dilyniant Cyfreithiol**

Mae Deddf (Cytundeb Ymadael) yr Undeb Ewropeaidd 2020 wedi gweithredu'r Cytundeb Gadael a wnaed rhwng yr UE a'r DG. Rhoddodd hyn sicrwydd i ddinasyddion yr UE sydd yn byw yn y DG ac i ddinasyddion y DG sydd yn byw yn yr UE, iddyn nhw allu parhau i fyw, fwy neu lai fel y gwnaethon nhw pan oedd y DG yn aelod o'r UE. Gweler yr adnoddau canlynol ar gyfer mwy o wybodaeth ar ddarpariaethau hawliau dinasyddion yn y Cytundeb:

- Comisiwn Ewrop - [Cwestiynau ac Atebion ar y Cytundeb Ymadael](#).
- Llywodraeth y DG - [Esboniadur ar ddarpariaethau Hawliau Dinasyddion yn y Cytundeb](#).

Bydd Deddf (Ymadael) yr Undeb Ewropeaidd 2018 hefyd yn sicrhau rhywfaint o sicrwydd cyfreithiol pan fydd y cyfnod trawsnewid yn dod i ben, drwy gadw'r rhan fwyaf o gyfraith yr UE yn ddomestig, o dan gategori newydd o ddeddfwriaeth o'r enw 'Cyfraith yr UE a gedwir yn ôl'. Bydd hyn yn cyfyngu ar faint y newid sylweddol sydd yn digwydd ar unwaith. Er hynny, caiff sefydliadau eu hannog i aros yn wylidwrus oherwydd gallai sawl maes polisi a gafodd eu tanategu gan Gyfraith yr UE gael eu newid nawr gan Lywodraeth y DG.

Wedi eu cyfuno, dylai'r mesurau hyn sicrhau peth dilyniant cyfreithiol. Fodd bynnag, ceir peth pryder ynglŷn â chyflwyno newidiadau sylweddol drwy gyfrwng deddfwriaeth eilradd, ac mae gwaith [SIFT y Project Cyfraith Gyhoeddus](#) yn craffu ar y newidiadau hyn.

## **1.3 Sicrhau bod eich sefydliad yn barod o safbwynt diogelu data**

Bydd GDPR yn cael ei gadw yng nghyfraith y DG ar ddiwedd y cyfnod trawsnewid. O ganlyniad, bydd agweddau domestig diogelu data yn aros yn debyg ar y cyfan. O Ionawr 1, 2021, bydd y corff sydd yn gyfrifol am ddeddfwriaeth diogelu data yn y DG wedi'i ffurfio o UK GRPD, y ddeddf Diogelu Data diwygiedig 2018 (DPA) a'r Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebiadau Electronig (PECR).

Ceir dwy senario ar gyfer trosglwyddo data'n rhyngwladol o ran derbyn data o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) i'w hystyried. Ni does disgwyl unrhyw newidiadau ynglŷn â data sy'n mynd allan.

1. Os bydd yr UE yn cyflwyno '**penderfyniad digonolrwydd**' cyn diwedd y cyfnod trawsnewid- bydd data personol yn parhau i lifo'n rhydd.
2. Os nad yw'r UE yn cyflwyno penderfyniad digonolrwydd mewn pryd (o ystyried yr amser sy'n weddill - mae hyn yn debygol):
  - a. Bydd rhaid i sefydliadau gael mecanweithiau trosglwyddo amgen mewn lle i gadw data'n llifo yn gyfreithiol (fel cymalau Cytundebol Safonol).
  - b. Bydd darpariaethau'r Cytundeb Ymadael ynglŷn â diogelu data yn dod i rym - sydd y golygu y bydd angen diogelu 'gwaddol' data personol penodol yn unol â chyfreithiau data'r UE. Mae data gwaddol yn cynnwys data personol unigolion tu allan i'r DG a

gafodd ei brosesu yn y DG cyn diwedd y cyfnod trawsnewid. Gall sefydliadau fod angen bod mewn sefyllfa mai'r data maen nhw'n ei gadw yw data gwaddol.

Am gyfarwyddyd llawn ar ddiwedd y cyfnod trawsnewid a diogelu data - gweler cyfarwyddyd [Llywodraeth y DG](#) a'r [ICO](#).

#### **1.4 Cadw ymwybyddiaeth o newidiadau rheolau caffael yn y dyfodol**

Mae cyfundrefn caffael gyhoeddus y DG yn deillio o gyfraith caffael yr UE ac felly caiff ei effeithio gan Brexit. Mae'r Ddeddf Ymadael 2018 wedi sicrhau bod agweddau domestig yn parhau i fod yr un peth yn y cyfamser ac mae Llywodraeth y DG wedi bod yn pasio offer statudol er mwyn adlewyrchu ymadael o'r UE. Hefyd, mae disgwyl ymgynghoriad yn 2021, felly bydd sefydliadau yn dymuno aros yn wylidwrus o newidiadau posib.

Bydd cytundebau masnach fel arfer yn ymdrin â chaffael ar lefel rhyngwladol, ond heb weld testun y cytundeb yn y dyfodol rhwng y DG a'r UE, ceir peth ansicrwydd yma. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DG wedi mynegi dyhead i ymadael â rheolau caffael yr UE.

**Ceir rhai newidiadau fydd yn dod i rym ar Ionawr 1, 2021 gan na fydd gofyniad mwyach i hysbysebu ar yr OJEU/TED - caiff Find a Tender ei ddefnyddio yn lle hynny. Parhau bydd y gofyniad i hysbysebu ar Gwerthwch i Gymru.**

##### ***Beth am ddatganoli?***

Cafodd Caffael Cyhoeddus ei nodi yn [nadansoddiad y fframwaith](#) fel maes polisi lle gallai pwerau sydd yn dychwelyd o'r UE groestorri ar gymhwysedd datganoledig ac a allai ofyn am ffyrdd an-neddfwriaethol o weithio. O ganlyniad i hyn, mae Llywodraethau'r DG a'r rhai datganoledig yn gweithio ar Fframwaith Caffael Cyffredin a [adroddwyd](#) arni a'i fod yn mynd drwy adolygiad cyfnod 2 ym mis Mai 2020.

##### **Darllen pellach**

Ceir cyfarwyddyd pellach gan lywodraeth y DG ar gaffael cyhoeddus ar ôl Ionawr 1, 2021 [yma](#). Am eglurhad syml, gweler bost gan Sefydliad Dros Lywodraeth [yma](#).

#### **1.5 Treth a Rheolau TAW**

Cafodd y rheolau ynglŷn â TAW eu cyflwyno o ganlyniad i ofynion aelodaeth o'r UE. Ar ddiwedd y cyfnod trawsnewid, ni fydd y DG yn rhan o ardal cydgordio TAW'r UE mwyach. O ganlyniad, oni bai fod y cytundeb perthynas yn y dyfodol yn datgan fel arall (os ceir cytundeb), fe allai Llywodraeth y DG gyflwyno newidiadau i TAW. Fodd bynnag yng Ngogledd Iwerddon, byddai'r rhain yn bosib yn unig o fod yn unol â rheolau'r UE.

Mae'r Grŵp Cyllid Elusennol [wedi amlygu](#) byddai rhai diwygiadau o fudd i'r drydedd sector, fel creu cyfraddau sero newydd a mecanwaith ad-daliad cynhwysfawr fyddai'n bosibl ar ôl Brexit. Fodd bynnag, fe fynegodd y Llywodraeth yn flaenorol ei fod yn bwriadu cadw'r gweithdrefnau TAW mor agos â phosib i'r hyn ag ydyn nhw ar hyn o bryd.

Am fwy o wybodaeth gweler esboniadur y [Sefydliad Dros Lywodraeth](#).

Yn olaf, o ganlyniad i ymadawiad y DG o'r undeb tollau a'r farchnad sengl, bydd gweithdrefnau'r adran tollau tramor a chartref hefyd yn ddarostyngedig i newidiadau. Er fe fydd y rhain yn fwy perthnasol i fusnesau a chanddynt ddimensiwn masnachu allanol.

#### **1.6 Codi Ymwybyddiaeth o Gynllun Preswyllo'r UE ymhlith staff a defnyddwyr bregus y gwasanaeth**

Rhaid i ddinasyddion yr UE, yr AEE, Swistir ac aelodau agos eu teuluoedd wneud cais i Gynllun Preswyllo'r UE er mwyn sicrhau eu hawliau preswyllo yn y DG. **Llinell derfyn gwneud cais yw Mehefin 30, 2021**, ond rhaid bod yr ymgeisydd wedi bod yn byw yn y DG erbyn Rhagfyr 31, 2020 i fod yn gymwys.

Rhaid i blant wneud eu cais eu hunain hefyd - gall rhieni geisio drostyn nhw, neu fe allan nhw wneud hyn eu hunain.

Does dim angen i ddinasyddion Gwyddelig wneud cais, oherwydd y byddan nhw'n parhau i elwa o'r Ardal Deithio Gyffredin. Fodd bynnag, gallai fod o fudd iddyn nhw wneud, oherwydd bod yr hawliau a gafodd eu sicrhau gan yr EUSS yn deillio o'r Cytundeb Ymadael - sicrwydd mewn cyfraith ryngwladol sydd yn fwy anodd ei newid.

Os oes gan ddinasydd Gwyddelig aelod teuluol nad sydd yn ddinasydd Ewropeaidd, gallai fod o help i gais aelod hwnnw o'r teulu i'r EUSS pe bai'r dinasydd Gwyddelig yn ymgeisio yn gyntaf.

**Os ydych yn fudiad trydydd sector sydd yn cefnogi unigolion bregus - gallwch gyfeirio dinasyddion yr UE i un o'r sefydliadau a restrir ar y wefan ganlynol ar gyfer cymorth proffesiynol gyda'u cais.:**  
<http://www.eusswales.com/en/index.html>.

Lleolir gwybodaeth fanwl a'r wefan ar gyfer y cais yma: <https://www.gov.uk/eusettledstatus>

## **1.7 Yn gyflogwyr - cadw ymwybyddiaeth o'r system Mewnfudo yn dilyn Brexit**

O Ionawr 1, 2021, bydd y DG yn cyflwyno system mewnfudo newydd yn seiliedig ar bwyntiau fydd yn ymdrin â phob unigolyn nad sy'n ddinasydd o'r DG. Golyga hyn y bydd newidiadau i'r llwybrau fisa presennol tuag at Haen 2 a Haen 4. Bydd symudiad llafur rhydd rhwng y DG a'r UE yn dod i ben gan olygu bydd gofyn i ddinasyddion yr UE fynd drwy'r un broses mewnfudo â mewnfudwyr o du allan i'r UE.

Am fwy o wybodaeth gweler [UK Government guidance for employers](#).

Bydd y rheolau yn ymwneud â hawl dinasyddion y DG i deithio i'r UE hefyd yn newid. Er enghraifft, bydd angen i aelodau staff sydd yn teithio ar gyfer busnes sicrhau bod ganddyn nhw 6 mis yn weddill ar eu pasbort. Gall fod cyfarwyddyd penodol hefyd ar sail gwlad i wlad. [Gweler y cyfarwyddyd manwl yma](#).

Gall hefyd fod yn ddefnyddiol yn yr hir dymor i gadw wedi eich diweddarau ynglŷn â'r ymchwil mewn perthynas ag effaith economaidd a chymdeithasol posib y newidiadau hyn. Canfu [adroddiad](#) gan Gonffederasiwn GIG Cymru a Chanolfan Cymru Dros Bolisi Cyhoeddus y gallai newidiadau olygu effaith bach ond nid ansylweddol ar recriwtio yn y GIG. Fodd bynnag, disgwylir i'r effaith fod yn fwy sylweddol ar gyfer gofal cymdeithasol oherwydd bydd llai o swyddi yn cymhwyso ar gyfer y fisa lechyd a Gofal.

[Yn ôl adroddiad pellach gan y WCPP](#), dywedwyd y byddai dod â symudiad rhydd i ben yn cael effaith sylweddol ar newid y boblogaeth yng Nghymru sydd wedi gweld mwy o ddibyniaeth ar fewnfudo na nifer fawr o rannau o Loegr. Mae hefyd yn rhagweld y bydd hi'n anos i lenwi swyddi gweigion mewn sectorau lle mae'r cyflog cyfartalog yn is na £25,600 ac mewn cymunedau gwledig a chanddynt boblogaeth sy'n heneiddio. Yn fwy cyffredinol, mae hefyd yn canfod fod arbenigwyr o'r farn bydd y

polisi yn cael effeithiau negyddol ar berthnasau cymunedol ac integreiddio yn ogystal ag ar ganfyddiadau o'r DG fel lle dymunol i fewnfudo iddi.

## **2 - TU HWNT I'R CYFNOD TRAWSNEWID - RHAI FFLACHBWYNTIAU**

### **ALLWEDDOL**

Er nad ydym yn gwybod union gynnwys y cytundeb sydd yn cael ei negodi, fe wyddom y bydd yn lawer mwy 'tenau' na'r hyn a gafodd ei ragweld gan lywodraeth Theresa May. Mewn geiriau eraill, ni fydd y cytundeb hwn yn cynrychioli diweddbwynt wrth benderfynu ar berthynas y DG/UE yn y dyfodol ac yn rhesymol, gallwn ddisgwyl rhai pwyntiau negodi i barhau mewn i 2021.

Gallai hyn gynnwys pynciau fel cydnabyddiaeth ar y cyd o gymwysterau proffesiynol, gan obeithio y byddan nhw'n cynnwys cyfranogaeth neu gysylltiad gyda rhaglenni'r UE fel Erasmus+ a Horizon Ewrop. Rydym hefyd bron yn sicr yn ein disgwyliad na fydd unrhyw gynnydd wedi cael ei wneud ynghylch deialog cefnogi Cymdeithas sifil, yn unol â'r ymrwymiad a gafwyd yn erthygl 125 o'r datganiad gwleidyddol.

Golyga hyn y gellid cael cyfleoedd pellach ar gyfer dylanwadu ac eiriolaeth sefydliadau'r drydedd sector ar lefel ddatganoledig a chanolog ynglŷn â nifer o 'r materion hyn.

### **2.1 Cyfranogaeth yn Rhaglenni'r UE yn y Dyfodol**

Mae Llywodraeth y DG wedi rhoi [ymateb llugoer](#) i geisiadau i sicrhau cyfranogaeth yn Erasmus+ yn y dyfodol ac mae wedi [gwrthod ceisiadau](#) i wneud hynny ar gyfer gwirfoddoli rhyngwladol a chyfleoedd ar leoliad drwy'r Corfflu Cydsafiad Ewropeaidd. Gallai hyn ddod ar draul cyfle sylweddol i bobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig o ystyried ffocws y rhaglenni hyn ar gydraddoldeb a mynediad.

Awgrymodd fandad negodi'r DG [na fyddai am geisio cymryd rhan yn Ewrop Greadigol yn y dyfodol](#).

Gall fod gan sefydliadau, yn enwedig y rhai sydd yn cefnogi symudoledd ieuencid, ddiddordeb mewn eirioli ynghylch a'r materion hyn tu hwnt i'r cyfnod trawsnewid. Os bydd hi'n profi'n amhosibl cymryd rhan yn y dyfodol yn rhaglenni'r Undeb Ewropeaidd, yna bydd yn werth ymchwilio i raglenni amgen domestig, gyda chylch gwaith o bosib tu hwnt i'r UE. Mae Cynllun Gwaith Llywodraeth Cymru ynglŷn â Diwedd y Cyfnod Trawsnewid yn dangos ei fod wedi bod yn erfyn am gyfranogiad llawn yn yr ystod o raglenni mae'r DG yn cymryd rhan ynddyn nhw ar hyn o bryd. Os nad yw hynny'n bosibl, yna dylid chwilota i gyfranogaeth ddatganoledig. Hyd yn hyn, nid yw Llywodraeth y DG wedi croesawu'r syniad, ond fe all fod yna le ar gyfer rhaglenni pwrpasol newydd a ddyluniwyd ac a gafodd eu cyflenwi ar lefel ddatganoledig.

Mae Llywodraeth y DG [wedi datgan](#) y bydd yn ceisio sicrhau cymdeithasu llawn gyda rhaglen Ymchwil Horizon. Fodd bynnag os nad yw hyn yn bosibl, mae wedi dangos ei fod yn bwriadu gwneud trefniadau amgen domestig i fod ar gael.

### **2.2 Perthynas rhwng Cymdeithas Sifil Cymru a'r UE yn y Dyfodol**

Ceir ymrwymiad ym mharagraff 125 o fewn y Datganiad Gwleidyddol rhwng y DG a'r UE a ddaeth gyda'r cytundeb gadael, i hyrwyddo deialog Cymdeithas sifil fel rhan o berthynas yn y dyfodol. Mae'n



debygol y daw hyn hyd yn oed yn bwysicach yn y dyfodol o ystyried y bydd y DG nawr yn fwy ymylol o ran penderfyniadau'r UE fydd er hynny yn effeithio ar y DG.

Mae sector y Celfyddydau a Diwylliant hefyd yn wynebu her benodol o weld y [galw am artistiaid o'r DG yn disgyn o bosib](#) o ganlyniad i golli'r rhyddid i symud, a chynnal perthynas agos gyda phartneriaid fyddai'n helpu i leddfu'r math yma o effaith drwy gynnal a chodi proffil Cymru yn rhyngwladol.

O ystyried y cyfyngiadau amser tynn a'r diffyg ewyllys i ymestyn y cyfnod trawsnewid hyd yn oed yn dilyn argyfwng Covid-19, mae'n ymddangos yn annhebygol y bydd unrhyw gynnydd yn cael ei wneud yn y maes hwn. Fodd bynnag mae yna archwaeth am berthynas ffurfiol strwythuredig gan Bwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewrop yn ogystal ag o amryw o rwydweithiau Cymdeithas sifil yn yr UE ac ar lefel Ewropeaidd.

### **2.3 Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG ac Effaith Economaidd Brexit a Covid-19**

Mae sefydliadau wedi gallu parhau i gael mynediad at ariannu'r UE a ddyrannwyd o dan gylch aml flynyddol 2014-2020, ac i rai projectau bydd yn parhau hyd at 2023. Fodd bynnag, ni fydd gan sefydliadau fynediad at y rownd nesaf o arian yr UE sydd yn rhan o gylch 2021-2027. Mae Llywodraeth y DG wedi ymrwymo i gymryd lle'r ariannu hwn gyda Chronfa Ffyniant Gyffredin y DG. Fodd bynnag, ychydig iawn o fanylion a gafodd eu rhannu yn ystod y tair blynedd diwethaf, a'r teimlad yw nad yw Llywodraeth y DG yn bwriadu cynnal ymgynghoriad mwyach er gwaetha'r ymrwymadau blaenorol i wneud hynny.

Cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Cymreig [adroddiad](#) yn condemnio'r diffyg cynnydd hyn ym mis Hydref 2020, gan amlygu methiant difrifol ar ran gweinidogion i ymgysylltu a budd-ddeiliaid a chyrrff deddfu. Yn y cyfamser, mae gan Bil Marchnad Fewnol y DG, sydd yn parhau i gael ei drafod yn Senedd y DG, bwerau cymorth ariannol i Lywodraeth y DG ym meysydd cymhwysedd datganoledig.

Ers hynny, mae Llywodraeth y DG wedi gwneud rhai cyhoeddiadau yn [Adolygiad Gwariant 2020](#), gan fynegi byddai Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG:

- Yn gweithredu ar draws y DG gan ddefnyddio'r pwerau gwariant a geir yn Bil Marchnad Fewnol y DG (er ar adeg ysgrifennu hwn mae'r ddeddfwriaeth yma a'r pwerau gwariant yn cael eu hymladd yn Nhŷ'r Arglwyddi)
- Dros amser, bydd cyfanswm ariannu domestig ar draws y DG yn cyfateb i'r hyn a geir o'r UE o leiaf.
- Yn buddsoddi mewn pobl a sgiliau sydd wedi eu teilwra i anghenion lleol
- Yn buddsoddi mewn cymunedau a lleoedd
- Yn buddsoddi mewn busnesau lleol
- Yn gofyn i leoedd sydd yn derbyn arian i gytuno ar ddeilliannau penodol er mwyn targedu o fewn 'fframwaith ar draws y DG'.

Ceir cyfeiriadau byr tuag at:

- Grŵp rhanddeiliaid fyddai'n datblygu argymhellion buddsoddi
- Ail gyfran o'r gronfa fyddai'n targedu pobl sydd fwyaf anghenus gyda rhaglenni cyflogaeth a sgiliau



- Ac i £220 miliwn mewn ariannu projectau peilot yn 2021.

Disgwylir mwy o fanylion yng ngwanwyn 2021.

Bydd y cyhoeddiad yn debygol o godi pryder ymhlith y sawl sy'n gweithredu yn y cenhedloedd datganoledig, mewn perthynas â mewnbwn datganoledig i gynllun a throsglwyddiad y gronfa. Yn ogystal â hynny, ceir cwestiwn ynghylch p'un a fyddai rhaglenni medrau a gyflenwir gan adrannau Llywodraeth y DG, fel yr Adran Gwaith a Phensiynau, yn wirioneddol hygyrch i bobl sydd yn wynebu'r rhwystrau mwyaf i gael mynediad i'r farchnad lafur.

Mae hefyd yn achos o bryder tra bod yna ymrwymiad i gyfateb â'r arian o'r UE ar lefel y Deyrnas Gyfunol, does dim arwydd y caiff unrhyw swm ei neilltuo er mwyn sicrhau bod lefelau ariannu yng Nghymru hefyd yn cael eu cyfateb. Mae hefyd yn aneglur ar y cyfnod yma sut fyddai hyn yn cysylltu â [Fframwaith Buddsoddiad Rhanbarthol](#) Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

Gallai sefydliadau fod yn awyddus i ddod i gyswllt â'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol a pharhau i weithio gyda'r llywodraethau datganoledig er mwyn parhau i gael eu diweddarau ar, ac i ddylanwadu ar gynllun parhaus y gronfa.

#### **Darllen pellach:**

- Gweler y [blog](#) hwn gan Ben Lloyd, Pennaeth Polisi CGGC
- A'r [blog](#) hwn gan Janine Downing, Rheolwr Tîm Ewropeidd y Drydedd Sector CGGC.

#### **Beth wyddom ni am effaith economaidd posib Brexit?**

Mae'n anffodus y bydd ansicrwydd ynglŷn ag arian cyfatebol i gymryd lle arian yr UE yn aros mewn cyd-destun pan fod Covid-19 wedi cael effaith negyddol mor le mar yr economi. Yn ogystal â hynny, mae'r Swyddfa dros Gyfrifoldeb Cyllidol wedi [amlygu](#) bod effaith economaidd Brexit (hyd yn oed gyda chytundeb masnach) yn fwy na Covid.

Fel y cafodd ei egluro gan y gan [Blog](#) y DG mewn Ewrop sy'n Newid (UK in a Changing Europe) - rhagolwg yr OBR yw y bydd yna ergyd o 3% i economi'r DG yn yr hir dymor o ganlyniad i Covid, tra'r darogan yw y bydd Brexit gyda chytundeb masnach yn golygu ergyd o 4%. Mae hyn yn unol â [dadansoddiadau gan arbenigwyr eraill](#)

### **2.4 Gall fod angen i sefydliadau gynllunio eu heiriolaeth ar gyfer cyd-destun ôl-Brexit o ganoli cynyddol ar lefel y DG a straen ar ddatganoli**

Mae Brexit wedi dod ag aflonyddu sylweddol i'r dirwedd gwleidyddol-gyfreithiol lle mae sefydliadau trydedd sector yn gweithredu. Mae effeithiolrwydd confensiwn Sewel, sydd yn golygu na fydd Senedd y DG fel arfer yn deddfu mewn perthynas â materion datganoledig heb gydsyniad y cyrff deddfu datganoledig, o dan amheuaeth. Mae hyn yn dilyn parodrwydd Llywodraeth y DG i fwrw ymlaen â deddfwriaeth - hyd yn oed pan fydd y tri chorff deddfu datganoledig wedi gwrthod rhoi'r cydsyniad hwnnw.

Gyda'r datblygiadau ynglŷn â Bil Marchnad Fewnol y DG, cawn ddarlun pellach o sut mae'r dirwedd ar gyfer eiriolaeth a dylanwad y drydedd sector yn dod yn fwyfwy heriol. Mae'n gwrth-droi datganoli mewn rhai meysydd polisi, yn torri cyfraith ryngwladol, yn ceisio cyfyngu'r cwrpas ar gyfer adolygiad barnwrol ac yn rhoi pwerau newydd i weinidogion y DG ym meysydd polisi datganoledig.

Yng Nghymru, mae'r sector wedi dibynnu i ryw raddau ar ei berthynas agos gyda Llywodraeth Cymru a'r Aelodau Cynulliad i ymdopi a dylanwadu ar y broses Brexit hyd yn hyn. Er enghraifft, sefydlodd

Llywodraeth Cymru Grŵp Masnach Ymgynghorol yn ddiweddar sydd yn cynnwys cynrychiolaeth trydedd sector gyda gwybodaeth a chyfleoedd mewnbwn yn cael eu rhaedru drwy sianeli rheolaidd. Mewn gwrthgyferbyniad â hyn, mae grwpiau ymgynghorol Llywodraeth y DG wedi eu cloi tu ôl i gytundebau diffyg datguddio.

Gyda hynny, bu cael mynediad a dylanwad yn heriol iawn i lywodraethau datganoledig ac efallai bydd angen i sefydliadau gynyddu eu hymgysylltiad gyda'u haelodau seneddol a Llywodraeth y DG wrth symud ymlaen. Gallai cryfhau gwaith cydweithiol gyda sefydliadau ar draws y cenhedloedd datganoledig eraill a chynyddu ymgysylltiad a phartneriaethau gyda sefydliadau trydydd sector ar draws y DG ddod hyd yn oed yn fwy gwerthfawr nac y bu yn y gorffennol.

Ceir sawl fflachbwynt ar y gorwel sydd yn digwydd yn erbyn cefnlen Brexit a allai fod angen cael y math yma o ail-flaenoriaethu, er enghraifft:

- Mae Llywodraeth y DG ar hyn o bryd yn ymgymryd ag adolygiad i gyfraith weinyddol ac adolygiad barnwrol. Mae [Liberty](#) wedi amlygu pryderon ynglŷn â hyn ac wedi rhoi gweithredoedd gan Lywodraethau blaenorol y DG yn y man hwn, yn ogystal ag ymdrechion diweddar i gyfyngu ar adolygiad barnwrol yn Bil Marchnad Fewnol y DG. Bydd y sector yn dymuno aros yn wylidwrus.
- Cafwyd ymrwymiad hefyd ym maniffesto olaf y Ceidwadwyr i ddiweddarau Deddf Hawliau Dynol 1998 fel rhan o ailystyriaeth ehangach o'r cyfansoddiad gan edrych i mewn i'r: berthynas rhwng y Llywodraeth, y Senedd a'r llysoedd; swyddogaeth yr Uchelfraint Frenhinol; swyddogaeth Tŷ'r Arglwyddi; a mynediad at gyfiawnder ar gyfer pobl gyffredin. ['Cyhoeddwyd manylion pellach ynglŷn â'r cynlluniau hyn ar](#) [erthygl](#) yma am fwy o sylwebaeth.
- Bydd sefydliadau hefyd am gadw ymwybyddiaeth o effaith y gwahanol ddarnau o ddeddfwriaeth sydd yn gysylltiedig â Brexit wrth iddyn nhw gael eu gweithredu. Er enghraifft, yn dibynnu ar ddeiliant taith Bil Marchnad Fewnol y DG drwy Senedd y DG, fe allai sefydliadau weld bod angen iddyn nhw asesu a deall os yw maes polisi maen nhw'n weithgar oddi fewn iddo (fel safonau amgylcheddol neu adeiladu er enghraifft) wedi ei ddal gan egwyddorion mynediad i'r farchnad, a'r hyn fyddai hynny yn ei olygu yn ymarferol.
- Bydd amrywiaeth o strwythurau sefydliadol hefyd yn weithredol gan gynnwys - ['Swyddfa r Marchnad Fewnol](#), yr [Awdurdod Monitro Annibynnol](#) (fydd yn goruchwyllo gweithrediad gwarantau hawliau dinasyddion o'r cytundeb gadael), yr [Awdurdod Gwella Masnach](#) (sydd yn cael ei sefydlu gan y Bil Masnach) a'r [Swyddfa dros Warchodaeth Amgylcheddol](#) (sydd yn bwriadu cymryd lle Comisiwn yr UE wrth gadw Llywodraeth y DG yn atebol mewn perthynas ag ymrwymadau amgylcheddol). Bydd y rhain yn swyddogaethau allweddol a dylai sefydliadau fuddsoddi peth amser er mwyn dod i ddeall a chraffu ar eu gweithgareddau.